
# MODIWL 4 RHAN A : FFEITHLEN I FYFYRWYR COSTAU CYNHYRCHU CIG EIDION

## CYFLWYNIAD

Nod menter cig eidion yw cynhyrchu cig o ansawdd uchel gan ddefnyddio adnoddau yn effeithlon. Bydd pwyslais pob menter yn wahanol a hefyd y costau sydd ynghlwm â phob system. Gellir categoreiddio mentrau cig eidion fel y gwelir yn Nhabl 1 a Thabl 2.

Y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar elwon fenter cig eidion yw:-

- Pwysau a chost prynu (ceiniog y kg)
- Costau bwydo
- Dwysedd stocio (systemau porfa)
- Tyfiant dyddiol
- Pwysau a phris gwerthu (ceiniog y kg)
- Costau sefydlog (defnydd o adeiladau a pheiriannau)



| Nod y fenter | Porthiant (silwair neu wair) | | Porfa | Dwysfwyd | | | Math o fenter | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Uchel | Isel | | Uchel | Canol | Isel | | |
| **Cynhyrchu cymaint o gig â phosib** | | | | ✓ | | | • Iard fwydo<br>• Haidd | Angen tyfiant dyddiol uchel gan ddefnyddio bwydydd yn uchel mewn ynni a phrotein ond yn rhad i'w prynu. |
| | ✓ | | | | ✓ | | • Silwair/Silwair India-corn Rosemaund | Tyfiant dyddiol uchel. Dibynnol ar gynhyrchu porthiant o ansawdd uchel. Costau sefydlog (adeiladau a pheiriannau) yn uchel. |
| **Cydbwysedd cynhyrchu rhwng pwysau cig ac ansawdd** | ✓ | | | | ✓ | | • Pesgi oddi ar silwair/silwair India-corn Rosemaund a dwysfwyd | Dibynnol ar ansawdd yr anifail – anifeiliaid o dras sugno yn cynhyrchu o ran ansawdd a rhai o dras godro yn cynhyrchu cymaint o gig â phosib. Cost prynu a gwerthu'r anifail yn allweddol. |
| | ✓ | | ✓ | | ✓ | | • 18 mis<br>• 20-24 mis | Dibynnol ar ansawdd yr anifail – anifeiliaid o dras sugno yn cynhyrchu o ran ansawdd a rhai o dras godro yn cynhyrchu cymaint o gig â phosib. Cost prynu a gwerthu'r anifail yn allweddol. |
| **Cynhyrchu cig o'r ansawdd bwyta uchaf posib** | | ✓ | ✓ | | | ✓ | • Pesgi oddi ar borfa | Digonedd o borfa a dwysedd stocio yn allweddol. Cost prynu a phris gwerthu'r anifail yn allweddol. |
| | | | ✓ | | | | • Organig | Ansawdd yn gallu bod yn newidiol. Allbwn corfforol a chost cynhyrchu yn isel, pris gwerthu (c y kg) yn uwch. |

TABL 1 NODWEDDION MENTRAU CIG EIDION

| Nod y fenter | Porthiant (silwair neu wair) | | Porfa | Dwysfwyd | | | Math o fenter | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Uchel | Isel | | Uchel | Canol | Isel | | |
| **Gwartheg Stôr** | | ✓ | ✓ | | | ✓ | • Gaeaf | Cydbwysedd rhwng ansawdd silwair is a defnydd uwch o ddwysfwyd. Cost prynu a phris gwerthu'r anifail yn allweddol. |
| | | | ✓ | | | | • Haf | Digonedd o borfa a dwysedd stocio yn allweddol. Cost prynu a phris gwerthu'r anifail yn allweddol. |
| **Lloi Sugno** | ✓ | | ✓ | | | ✓ | • llawr gwlad | Gwartheg yn fwy felly angen mwy o ddwysfwyd. |
| | | ✓ | ✓ | | | | • Ucheldir | Pori arddwys allan ar yr ucheldiroedd. Cynhyrchiant isel felly cadw costau yn isel yn bwysig. |

**TABL 2 NODWEDDION MENTRAU CIG EIDION**

ALLBWN MENTRAU CIG EIDION

Dau brif ffactor sy'n cyfrannu at allbwn menter cig eidion sef gwerth yr anifail wrth ei farchnata a chost prynu'r anifail. Os yw'r anifail yn cael ei fagu ar y fferm yna does dim cost prynu. Gellir disgrifio allbwn fel hyn:-

$$\text{ALLBWN} = \text{GWERTH MARCHNAD} - \text{COST PRYNU}$$

neu

$$\text{ALLBWN £} = \left(\text{Pwysau gwerthu kg} \times \frac{\text{Pris gwerthu c y kg}}{100}\right) - \left(\text{Pwysau prynu kg} \times \frac{\text{Pris prynu c y kg}}{100}\right)$$

Er enghraifft


| | |
|---|---|
| Pwysau gwerthu | 580 kg |
| Pris gwerthu | 130 ceiniog y kg byw |
| Pwysau prynu | 280 kg |
| Pris prynu | 120 ceiniog y kg byw |

$$\text{ALLBWN £} = \left(580 \times \frac{130}{100}\right) - \left(280 \times \frac{120}{100}\right)$$

$$\text{ALLBWN£} = (754) - (336) = 418$$

Bydd y gwahaniaeth pris rhwng prynu a gwerthu yn allweddol, ond hefyd y tyfiant dyddiol a'r nifer o ddyddiau mae'r anifail yn cael ei gadw rhwng prynu a gwerthu.

Er enghraifft




Bydd cynnal tyfiant dyddiol uwch am gyfnod estynedig yn golygu bod yr anifail yn (i) cyrraedd ei bwysau targed yn gynt (ac yn arbed costau bwydo) neu (ii) yn cyrraedd pwysau uwch ac yn werth mwy wrth ei ladd.

## Costau newidiol

Costau sy'n newid i adlewyrchu maint menter yw costau newidiol. Os yw nifer yr anifeiliaid a gedwir yn fwy, yna mae'r costau'n fwy. Y prif gostau newidiol mewn menter cig eidion yw:-

- Dwysfwyd
- Porthiant
- Milfeddygol
- Marchnata
- Gwellt
- Arall


Gan amlaf, dwysfwyd yw'r brif gost gyda phorthiant yn dilyn, ond rhaid talu sylw i'r gweddill.

Gallwn gyfrifo cost dwysfwyd drwy ddefnyddio'r hafaliadau canlynol:-

$$\text{Cyfanswm pwysau dwysfwyd (kg)} = \text{Cyfnod bwydo (dydd)} \times \text{Pwysau dwysfwyd (kg y dydd)}$$

$$\text{Cyfanswm cost dwysfwyd (£)} = \text{Cyfanswm pwysau dwysfwyd (kg)} \times \text{Pris (£ y t)} \div 1000$$

Er enghraifft



## Cyfrifo Elw Bras Menter

Defnyddir Elw Bras i fesur llwyddiant ariannol menter amaethyddol. Casgliad o weithgaredd sy’n cynhyrchu’r un nwyddau ac yn arddangos yr un nodweddion yw menter.

| Menter | Nodiadau |
|---|---|
| Godro | Casgliad o wartheg o frid llaeth sy’n cynhyrchu llaeth, lloi a hen wartheg. |
| Cig eidion | Casgliad o anifeiliaid sy’n cynhyrchu cig. |
| Defaid | Casgliad o ddefaid sy’n cynhyrchu ŵyn, hen ddefaid a gwlân. |
| Haidd | Menter cnydau sy’n cynhyrchu grawn a gwellt o haidd. |

Fe gyfrifir Elw Bras menter drwy ddefnyddio’r hafaliad yma:-

$$\text{ELW BRAS} = \text{ALLBWN} - \text{COSTAU NEWIDIOL}$$

Mae’n bosib ei gyfrifo ar sail Cyfanswm i’r fenter neu ar sail £ y pen i bob anifail yn y fenter. Bydd cyfrifo ar sail £ y pen yn ei gwneud hi’n bosib meincnodi a gwneud cymariaethau â mentrau eraill. Gwelir templed ac enghraifft o gyfrifo elw bras isod.

TEMPLED ELW BRAS MENTER CIG EIDION

## Menter | Nifer stoc

| **Allbwn** | | £ y pen | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| | Pris gwerthu (ceiniog y kg) | | |
| | Pwysau gwerthu (kg) | | |
| | Pris prynu (ceiniog y kg) | | |
| | Pwysau prynu (kg) | | |
| **Allbwn y fenter** | | | |
| **Costau Newidiol** | | | |
| | Dwysfwyd | | |
| | Porthiant | | |
| | Milfeddygol | | |
| | Marchnata | | |
| | Gwellt | | |
| | Arall | | |
| **Cyfanswm Costau Newidiol** | | | |
| **ELW BRAS** | | | |

NODIADAU – HAFALIADAU PERTHNASOL

Allbwn y fenter = Gwerthu – Cost Prynu

Elw Bras = Allbwn – Costau Newidiol

| Menter *Pesgi gwartheg stôr* | | Nifer stoc | 400 |
|---|---|---|---|
| **Allbwn** | | £ y pen | CYFANSWM |
| Pris gwerthu (ceiniog y kg byw) | 130 | | |
| Pwysau gwerthu (kg) | 580 | 754 | 301 600 |
| Pris prynu (ceiniog y kg byw) | 120 | | |
| Pwysau prynu (kg) | 280 | 336 | 134 400 |
| **Allbwn y fenter** | | **418** | **167 200** |
| **Costau Newidiol** | | | |
| Dwysfwyd | | 133 | 53 200 |
| Porthiant | | 30 | 12 000 |
| Milfeddygol | | 26 | 10 400 |
| Marchnata | | 29 | 11 600 |
| Gwellt | | 13 | 5 200 |
| Arall | | 5 | 2 000 |
| **Cyfanswm Costau Newidiol** | | **236** | **94 400** |
| **ELW BRAS** | | **182** | **72 800** |

## Costau Porfeydd

Math o gostau newidiol yw costau porfeydd sy'n cynyddu neu leihau yn ôl arwynebedd ac nid yn ôl nifer stoc. Gyda systemau sy'n defnyddio glaswelltir rhaid cyfrifo'r costau sy ynghlwm â chynhyrchu porfa. Y prif gostau yn ynghlwm â phorfeydd yw:-

- Gwrtaith
- Chwynladdwyr
- Calch
- Costau silwair a gwair – contractwyr, cynhwysyddion, gorchuddion plastig

Bydd rhannu'r costau rhwng nifer uwch o anifeiliaid yn lleihau'r baich ar anifail unigol, felly mae dwysedd stocio yn allweddol mewn mentrau llwyddiannus.

### Cyfrifo costau porfeydd

| **Costau Porfeydd** | **£** | Nodiadau |
|---|---|---|
| Gwrtaith | | |
| Chwynladdwr | | |
| Calch | | |
| Costau Silwair neu Wair | | |
| Arall | | |
| **Cyfanswm Costau Porfeydd** | | |
| Nifer hectar porfeydd | | |
| **Cost porfeydd yr hectar** | | $\frac{\text{Cyfanswm costau}}{\text{Nifer hectarau}}$ |
| Dwysedd stocio (nifer yr hectar) | | |
| **Cost porfeydd y pen** | | $\frac{\text{Cost porfeydd yr hectar}}{\text{Dwysedd stocio}}$ |

ENGHRAIFFT O GYFRIFO COSTAU PORFEYDD

| **Costau Porfeydd** | |
|---|---|
| Gwrtaith | £6000 |
| Chwynladdwr | £500 |
| Calch | £2000 |
| Costau Silwair neu Wair | £4000 |
| Arall | £620 |
| **Cyfanswm Costau Porfeydd** | £13120 |
| Nifer hectar porfeydd | 80 |
| **Cost porfeydd yr hectar** | £164 |
| Dwysedd stocio (nifer yr hectar) | 5.0 |
| **Cost porfeydd y pen** | £32.80 |

## Costau sefydlog

Costau sy'n anodd eu clustnodi i fenter benodol neu gostau sydd ddim yn newid yn ôl maint menter y costau sefydlog. Y prif gostau sefydlog yw :-

- Adeiladau
- Peiriannau
- Llafur
- Pŵer (Olew a Thrydan)
- Cynnal a Chadw
- Llogau ar Fenthyciadau
- Llog Gorddrafft
- Yswiriant
- Dŵr
- Teleffon
- Rhenti

Er ei fod yn anodd clustnodi'r costau sefydlog ar sail menter, mae'n bosib amcangyfrif y gost i bob anifail.

### Enghraifft o gyfrifo costau sefydlog

| **Costau Sefydlog** | | Nodiadau |
|---|---|---|
| Llafur | £20000 | |
| Pŵer | £2400 | |
| Llogau | £500 | |
| Yswiriant | £1000 | |
| Arall | £1600 | |
| **Cyfanswm Costau Sefydlog** | £25500 | |
| Nifer hectar porfeydd | 80 | |
| **Cost sefydlog yr hectar** | £318.75 | $\frac{\text{Cyfanswm costau}}{\text{Nifer hectarau}}$ |
| Dwysedd stocio (nifer yr hectar) | 5.0 | |
| **Cost sefydlog y pen** | £63.75 | $\frac{\text{Cost sefydlog yr hectar}}{\text{Dwysedd stocio}}$ |


Byddai disgwyl i’r elw bras a ddaw o’r holl fentrau fod yn ddigonol i dalu am gostau sefydlog y busnes.

Enghraifft

| | **£ y pen** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|
| Elw Bras | £182 | £72 800 |
| Llai Costau Porfeydd | £32.80 | £13 120 |
| **Elw Bras ar ôl Costau Porfeydd** | £149.20 | £59 680 |
| Llai Costau Sefydlog | £63.75 | £25 500 |
| **Elw** | £85.45 | £34 180 |

### Dadansoddi’r berthynas rhwng Elw, Elw Bras a Chostau Sefydlog

Drwy lunio coeden fel ag yn Ffigur 1 bydd yn bosib dadansoddi’r berthynas rhwng yr holl ffactorau sy’n dylanwadu ar elw busnes sy’n cadw cig eidion. Bydd yn bosib cymharu’r ffactorau unigol gyda data meincnodi sydd ar gael gan Hybu Cig Cymru, EBLEX ac asiantaethau eraill sy’n casglu gwybodaeth am fentrau amaethyddol.




**FFIGUR 1 COEDEN FFYNHONNELL ELW AR GYFER MENTER CIG EIDION SY'N CYFUNO FFACTORAU FFISEGOL AC ARIANNOL**

## MEINCNODI PERFFORMIAD

Pwrpas meincnodi yw cymharu perfformiad system ar fferm gyda pherfformiad safonol o fewn y diwydiant. O adnabod y gwahaniaethau rhwng y ddau, gall ffermwr adnabod y ffactorau sy'n hybu cynhyrchiant a ffactorau sy'n lleihau cynhyrchiant.

Bydd nifer o gyrff sydd ynghlwm â chynnyrch cig eidion yn cyhoeddi manylion meincnodi e.e. Hybu Cig Cymru, EBLEX a'r Arolwg Busnes Fferm. Gall y wybodaeth ddod o arolwg neu o ffigurau targed ar gyfer mentrau penodol.

Gall meincnodi ganiatáu cymhariaeth yn ôl £ y pen neu £ yr hectar.

.

TEMPLED MEINCNODI SYSTEM CIG EIDION

| | DATA MEINCNODI | | |
|---|---|---|---|
| | Perfformiad cyfartalog y diwydiant | Perfformiad ⅓ uchaf y diwydiant | Perfformiad fferm |
| ALLBWN | | | |
| Pwysau gwerthu (kg y pen) | | | |
| Pris gwerthu (c y kg) | | | |
| Incwm gwerthu (£ y pen) | | | |
| Pwysau prynu (kg y pen) | | | |
| Pris prynu (c y kg) | | | |
| Cost prynu (£ y pen) | | | |
| ALLBWN (£ y pen) | | | |
| COSTAU NEWIDIOL | | | |
| Pwysau dwysfwyd (kg y pen) | | | |
| Cost dwysfwyd (£ y dunnell) | | | |
| Cyfanswm cost dwysfwyd (£ y pen) | | | |
| Costau Milfeddygol (£ y pen) | | | |
| Costau Gwellt (£ y pen) | | | |
| Costau Marchnata (£ y pen) | | | |
| Costau Eraill (£ y pen) | | | |
| CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL | | | |
| ELW BRAS (£ y pen) | | | |
| MANYLION FFISEGOL | | | |
| Dwysedd stocio ( nifer yr hectar) | | | |
| Pwysau silwair (kg y pen) | | | |
| Tyfiant dyddiol (kg y dydd) | | | |
| Cyfnod bwydo (dydd) | | | |
| Marwolaeth (%) | | | |
| % Lladd (pwysau lladd/pwysau byw kg) | | | |

## Enghraifft o Feincnodi system cig eidion

| | DATA MEINCNODI | | |
|---|---|---|---|
| | Perfformiad cyfartalog y diwydiant | Perfformiad ⅓ uchaf y diwydiant | Perfformiad fferm |
| ALLBWN | | | |
| Pwysau gwerthu (kg y pen carcas) | 336 | 350 | 313 |
| Pris gwerthu (c y kg) | 270 | 280 | 241 |
| Incwm gwerthu (£ y pen) | 907 | 980 | 754 |
| Pwysau prynu (kg y pen) | 420 | 440 | 280 |
| Pris prynu (c y kg) | 145 | 135 | 120 |
| Cost prynu (£ y pen) | 504 | 594 | 336 |
| ALLBWN (£ y pen) | 403 | 386 | 418 |
| COSTAU NEWIDIOL | | | |
| Pwysau dwysfwyd (kg y pen) | 700 | 500 | 800 |
| Cost dwysfwyd (£ y dunnell) | 180 | 160 | 166.25 |
| Cyfanswm cost dwysfwyd (£ y pen) | 126 | 80 | 133 |
| Costau Milfeddygol (£ y pen) | 16 | 16 | 26 |
| Costau Gwellt (£ y pen) | 23 | 25 | 13 |
| Costau Marchnata (£ y pen) | 37 | 40 | 29 |
| Costau Eraill (£ y pen) | 12 | 12 | 35 |
| CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL | 214 | 173 | 236 |
| ELW BRAS (£ y pen) | 189 | 213 | 182 |
| MANYLION FFISEGOL | | | |
| Dwysedd stocio ( nifer yr hectar) | 4.0 | 5.0 | 5.0 |
| Pwysau silwair (kg y pen) | 4650 | 5250 | 5500 |
| Tyfiant dyddiol (kg y dydd) | 1.0 | 1.06 | 0.8 |
| Cyfnod bwydo (dydd) | 180 | 170 | 200 |
| Marwolaeth (%) | 1% | 1% | 2% |
| % Lladd (pwysau lladd/pwysau byw kg) | 336/600 = 56% | 350/625 = 56% | 313/ 580 = 54% |

LLWYDDIANT (980)

LLWYDDIANT (80)

LLWYDDIANT (1.06)

Incwm llai na chyfartaledd (754)

Cost prynu yn llai na chyfartaledd (336)

Allbwn yn fwy na chyfartaledd (418)

Cost dwysfwyd uchel oherwydd defnydd a chyfnod bwydo hir (133)

Costau newidiol uwch (236)

Elw bras is (182)

Bwyta mwy o silwair (5500)

Tyfiant dyddiol llai a chyfnod bwydo hir (200)

## Cyfrifo i reoli systemau cig eidion

Ffactor allweddol i ffermwyr cig eidion yw penderfynu pa bris sydd angen wrth werthu creaduriaid er mwyn sicrhau elw. Gelwir y pris yma yn bris adennill (*breakeven price*) ac mae'n mesur y pris isaf all ffermwr ei dderbyn heb wneud colled. Bydd y cyfrifiad yma yn cyfansymu

- cost prynu'r anifail
- costau newidiol
- costau porfeydd a
- chost cyfalaf gweithredol

ac yna ei rannu gyda phwysau tebygol yr anifail wrth ei werthu i gyfrifo'r pris adennill. Mae'r templed isod yn dangos y cyfrifo sydd angen ac mae enghraifft i ddilyn.

**Pris adennill costau Gwartheg Stôr**

1. Cyfrifo cost prynu wedi ei addasu am farwolaethau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cost prynu (£ y pen) | Pris prynu (c y kg byw) | | |
| | × | | |
| | Pwysau prynu (kg) | | |
| | ÷ 100 | | |
| | = | 1 | |
| Addasiad am farwolaethau (£ y pen) | Cost prynu (£ y pen) | O rif 1 | |
| | × | | |
| | Canran marwolaethau (%) | | |
| | = | 2 | |
| Cost prynu wedi ei addasu (£ y pen) | Cost prynu (£ y pen) | O rif 1 | |
| | + | | |
| | Addasiad am farwolaethau (£ y pen) | O rif 2 | |
| | = | 3 | |

2. Cyfrifo cyfanswm costau newidiol

| | | |
|---|---|---|
| Cost dwysfwyd (£ y pen) | Kg dwysfwyd y pen | |
| | × | |
| | Pris dwysfwyd £ y t | |
| | ÷ 1000 | |
| | = | |
| Costau porthiant (£ y pen) | + | |
| Costau milfeddygol (£ y pen) | + | |
| Costau marchnata | | |
| Costau gwellt (£ y pen) | + | |
| Arall (£ y pen) | + | |
| Costau porfeydd (£ y pen) | + | |
| Cyfanswm costau newidiol a phorfeydd (£ y pen) | = | 4 |

3. Cyfrifo Cyfanswm Costau

| Cyfanswm Costau (£ y pen) | | | |
|---|---|---|---|
| | Cost prynu wedi ei addasu (£ y pen) | O rif 3 | |
| | + | | |
| | Cyfanswm costau newidiol a phorfeydd (£ y pen) | o rif 4 | |
| | = | 5 | |

1. Addasiad am logau ar gyfalaf gweithredol

| Cost llogau am gyfalaf gweithredol (£ y pen) | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfanswm costau (£ y pen) | O rif 5 | |
| | × | | |
| | Cyfradd llog (%) | | |
| | ÷ 365 | | |
| | × | | |
| | Cyfnod bwydo (dydd) | | |
| | = | 6 | |

5. Cyfrifo pris adennill costau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pris adennill costau ac eithrio costau sefydlog (£ y kg) | Cyfanswm costau (£ y pen) | O rif 5 | |
| | + | | |
| | Cost llogau (£ y pen) | O rif 6 | |
| | = | | |
| | ÷ | | |
| | Pwysau gwerthu (kg) | | |
| | × 100 | | |
| | = | | |

**Enghraifft Pris adennill costau Gwartheg Stôr**

1. Cyfrifo cost prynu wedi ei addasu am farwolaethau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cost prynu (£ y pen) | Pris prynu (c y kg byw) | | 120 |
| | × | | |
| | Pwysau prynu (kg) | | 280 |
| | ÷ 100 | | |
| | = | 1 | 336 |
| Addasiad am farwolaethau (£ y pen) | Cost prynu (£ y pen) | O rif 1 | 336 |
| | × | | |
| | Canran marwolaethau (%) | | 2% |
| | = | 2 | 6.72 |
| Cost prynu wedi ei addasu (£ y pen) | Cost prynu (£ y pen) | O rif 1 | 336 |
| | + | | |
| | Addasiad am farwolaethau (£ y pen) | O rif 2 | 6.72 |
| | = | 3 | 342.72 |

2. Cyfrifo cyfanswm costau newidiol

| | | |
|---|---|---|
| Cost dwysfwyd (£ y pen) | Kg dwysfwyd y pen | 800 |
| | × | |
| | Pris dwysfwyd £ y t | 166.25 |
| | ÷ 1000 | |
| | = | 133 |
| Costau porthiant (£ y pen) | + | 30 |
| Costau milfeddygol (£ y pen) | + | 26 |
| Costau marchnata | | 29 |
| Costau gwellt (£ y pen) | + | 13 |
| Arall (£ y pen) | + | 5 |
| Costau porfeydd (£ y pen) | + | 32.80 |
| Cyfanswm costau newidiol a phorfeydd (£ y pen) | = 4 | 268.80 |

3. Cyfrifo Cyfanswm Costau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm Costau (£ y pen) | Cost prynu wedi ei addasu (£ y pen) | O rif 3 | *342.72* |
| | + | | |
| | Cyfanswm costau newidiol a phorfeydd (£ y pen) | O rif 4 | *268.80* |
| | = | 5 | *611.52* |

4. Addasiad am logau ar gyfalaf gweithredol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cost llogau am gyfalaf gweithredol<br><br>(£ y pen) | Cyfanswm costau (£ y pen) | O rif 5 | *611.52* |
| | × | | |
| | Cyfradd llog (%) | | *5%* |
| | ÷ 365 | | |
| | × | | |
| | Cyfnod bwydo (dydd) | | *200* |
| | = | 6 | *16.75* |

5. Cyfrifo pris adennill costau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pris adennill costau ac eithrio costau sefydlog (c y kg byw) | Cyfanswm costau (£ y pen) | O rif 5 | 611.52 |
| | + | | |
| | Cost llogau (£ y pen) | O rif 6 | 16.75 |
| | = | | 628.27 |
| | ÷ | | |
| | Pwysau gwerthu (kg) | | 580 |
| | × 100 | | |
| | = | | 108.3 |

Gellir amcangyfrif y pris ychwanegol sydd angen i glirio costau sefydlog. Os yw'r amcangyfrif am gostau sefydlog yn £63.75 y pen a'r pwysau gwerthu yn 580kg yna:-

| | | |
|---|---|---|
| | | £63.75 |
| | ÷ | |
| | Pwysau gwerthu (kg) | 580 |
| | × 100 | |
| Ychwanegiad i'r pris adennill costau er mwyn talu am gostau sefydlog (c y kg byw) | = | 10.99 |

1. A yw'r ALLBWN yn uwch neu yn is na chyfartaledd?
    a. Beth yw'r pris gwerthu - ceiniog y kg - o'i gymharu â'r farchnad?
        i. A oes dylanwad amser y flwyddyn, rhyw, brid, ansawdd braster a chydymffurfiad?
    b. Beth yw'r pris prynu - ceiniog y kg - o'i gymharu â'r farchnad?
        i. A oes dylanwad amser y flwyddyn, rhyw, potensial tyfiant?
    c. A oes digon o dyfiant – kg y dydd – rhwng prynu a gwerthu?
        i. A oes dylanwad amser y flwyddyn, rhyw, brid?
        ii. A oes dylanwad bwydo a phorthiant?
    d. Beth yw'r pwysau gwerthu - kg - o'i gymharu â'r targed?
2. A yw'r COSTAU NEWIDIOL yn uwch neu'n is na'r cyfartaledd?
    a. Pa un o'r costau newidiol yw'r mwyaf drud?
    b. Beth yw'r cyfanswm kg dwysfwyd a ddefnyddiwyd y pen?
    c. Beth oedd pris y dwysfwyd?
3. A yw COSTAU PORFEYDD yn uwch neu'n is na'r cyfartaledd?
    a. Pa un o'r costau porfeydd yw'r mwyaf drud a pham?
    b. Beth yw'r dwysedd stocio ac a yw'n uwch neu lai na'r disgwyl?
4. A yw COSTAU SEFYDLOG yn uwch neu yn is na chyfartaledd?
    a. A oes gwariant diangen?
    b. A oes gwariant anarferol?

Bydd ateb y cwestiynau yma yn help i ddadansoddi cryfderau a gwendidau system gig eidion.